

# Iawndal Tir

## *Egluro'ch Hawliau*



5

Inswleiddio rhag  
Sŵn Traffig

Rheoliadau inswleiddo rhag sŵn 1975



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

ISBN 0 7504 9870 6  
Dyluniwyd gan y!  
Uned Graffeg G/367/03-04

Tachwedd  
INA-15-05-075

© Hawlfraint y Goron 2003  
Cysodwyd gan y Gwasanaethau  
Prosesu Testun

# CYNNWYS

## Tudalen

### Cyflwyniad

Amcan y rheoliadau	1
Adeiladau cymwys	1
Ystafelloedd cymwys	2
Ystafelloedd mewn eiddo gerllaw meysydd awyr	2
Cynigion inswleiddio	2
Sŵn adeiladu	4
Trefniadau i wneud y gwaith a'i arolygu	4
Y weithdrefn ar gyfer gwneud cais am grant	5

### Manylebau gwaith inswleiddio

Ffenestri eilaidd	8
Drysau dwbl	8
Awyru	9
Llenni dellt	9
Cyffredinol	10
Diffygion yn yr adeilad	10
Cynnal a chadw	10
Gwaith sydd eisoes wedi' i osod	11
Y weithdrefn apelau	11

### Defnyddio'r gwaith inswleiddio

Awryddion 13

Llenni haul 14

### Nodiadau ar gymhwyster

Ffyrdd newydd a ffyrdd a newidir 15

Y lefel benodedig 15

Y llyfrynnau eraill yn y gyfres hon yw:

Llyfryn 1 - *Eich cartref a phrynu gorfodol*

Llyfryn 2 - *Eich cartref a niwsans o ddatblygiad cyhoeddus*

Llyfryn 3 - *Eich busnes a datblygiad cyhoeddus*

Llyfryn 4 - *Y ffermwr a datblygiad cyhoeddus*

Gellir cael rhagor o gopiau o'r llyfryn hwn oddi wrth  
Lywodraeth Cynulliad Cymru, Y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth,  
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

# Cyflwyniad

1. Mae rheoliadau'n darparu ar gyfer inswleiddio eiddo preswyl rhag sŵn traffig sy'n deillio o ffyrdd newydd neu ffyrdd a addaswyd.\* Mae'r Llyfryn hwn yn egluro sut mae'r rheoliadau'n gweithio a sut y gall deiliad tŷ ddarganfod a yw ei annedd yn gymwys i gael ei inswleiddio. Arweiniad yn unig yw hwn ac nid oes iddo unrhyw awdurdod cyfreithiol. Dylai unrhyw un y mae arno angen cyngor gysylltu â chyfreithiwr, Canolfan Gynghori neu ganolfan cymorth cyfreithiol, er na chaiff unrhyw ffioedd eu had-dalu gan yr awdurdod sy'n darparu'r inswleiddiad.

\* Rheoliadau Inswleiddio rhag Sŵn 1975 (OS 1975/1763), fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Inswleiddio rhag Sŵn (Diwygio) 1988 (OS 1988/2000).

## *Amcan y rheoliadau*

2. Mae'r rheoliadau'n galluogi preswylwyr sy'n dioddef sŵn traffig ychwanegol ar lefel benodedig, neu uwchben y lefel honno sy'n deillio'n uniongyrchol o ddefnyddio ffyrdd newydd, i elwa oddi wrth ostyngiad yn lefel y sŵn y tu mewn i'w cartref trwy gyfrwng ffenestri dwbl, awyru ategol a, lle bo'n briodol, llenni dellt a drysau dwbl neu ddrysau wedi eu hinswleiddio. Gellir gosod inswleiddiad hefyd rhag cynnydd mewn sŵn traffig sy'n deillio'n uniongyrchol o addasu ffyrdd a rhag sŵn adeiladu.

3. Mae'r nodyn ar gymhwyster yn egluro'n fanylach y mathau o ffyrdd y mae'r rheoliadau'n gymwys iddynt ar lefelau sŵn sy'n cymhwyso adeiladau i gael eu hinswleiddio.

## *Adeiladau cymwys*

4. Adeiladau cymwys yw anheddau ac eiddo preswyl eraill a rhannau o eiddo megis tai, fflatiau, cartrefi hen bobl, cartrefi nyrsys a llety preswyl mewn sefydliadau addysgol. (Yng ngweddill y Llyfryn hwn cyfeirir atynt i gyd fel 'anheddau'). Rhaid i'r anheddau fod o fewn 300 metr i'r ffordd newydd neu'r

ffordd sydd i'w haddasu a rhaid i rywun fod wedi bod yn byw ynddynt cyn ei hagog i'r cyhoedd am y tro cyntaf. Ni fydd addasiadau neu ychwanegiadau i anheddau a feddiannwyd am y tro cyntaf wedi'r amser hwnnw yn gymwys.

5. Nid yw annedd yn gymwys os yw'n destun gorchymyn prynu gorfodol neu hysbysiad cyffelyb neu os yw mewn ardal clirio slymiau.

### ***Ystafelloedd cymwys***

6. Mae ystafelloedd byw ac ystafelloedd gwely sydd â mwy nag un ffasâd gyda ffenestri a drysau'n wynebu sŵn ar y lefel benodedig neu uwchben y lefel honno yn gymwys i'w trin. Mae 'ystafell fyw' yn cynnwys, er enghraifft, ystafell fwyta, stydi neu ystafell fyw a chysgu, ond nid cegin.

7. Mae ffenestri eilaidd yn cyfyngu cylchrediad aer ac felly mae angen mesurau diogelwch ar gyfer cyflenwad o awyr iach. Felly er mwyn diogelwch, ni fydd ystafell gydag offer hylosgi heb ffliw yn gymwys i gael ei hinswleiddio, os nad yw'n cynnwys ffenestr nad yw'n gymwys, ac y gellir ei hagog, a honno'n cael ei gadael heb ei hinswleiddio.

### ***Ystafelloedd mewn eiddo gerllaw meysydd awyr***

8. Ni fydd ystafelloedd sydd eisoes wedi eu hinswleiddio o dan gynllun maes awyr yn gymwys i gael eu hinswleiddio na chael triniaeth ychwanegol o dan y rheoliadau, ond gall ystafelloedd nad ydynt wedi ei hinswleiddio o dan y cynllun maes awyr fod yn gymwys ar gyfer gwaith inswleiddio.

### ***Cynigion inswleiddio***

9. Dangosir anheddau, neu rannau o anheddau cymwys ar fap neu restr a gynhyrchir gan yr awdurdod priffyrdd a adneur yn swyddfeydd yr awdurdod hwnnw neu yn swyddfa ei asiant. (Yn gyffredinol, yr awdurdod dosbarth lleol fydd yr asiant hwn, ond gellir penodi awdurdod lleol arall neu gwmni o ymgynghorwyr.) Dylai'r map neu'r rhestr gael eu hadneuo a bod

ar gael fel rheol i'w harchwilio gan y cyhoedd yn ddim hwyrach na chwe mis wedi agor y ffordd ond gellir eu hadneuo'n llawer cynt lle mae'r awdurdod yn gallu adnabod yr adeiladau cyn agor y ffordd i'r cyhoedd. Cyn hyn, gall yr awdurdod sy'n gweinyddu'r cynllun (yng ngweddill y llyfryn cyfeirir ato fel 'yr awdurdod' yn unig) drefnu archwiliad rhagarweiniol o'r eiddo. Bydd gan unrhyw un fydd yn galw i wneud hyn gerdyn adnabod a dylech ofyn am gael ei weld.

**10.** Cyn gynted ag y caiff y map neu'r rhestr eu hadneuo rhaid i'r awdurdod gynnig inswleiddio'r anheddau y nodir eu bod yn gymwys.

**11.** Fel arfer cyfeirir y cynnig ffurfiol at ddeiliad yr eiddo (ond mewn rhai achosion caiff ei gyfeirio at y landlord). Mae gan dderbynydd y cynnig (y cyfeirir ato yma fel 'y parti cyntaf') chwe mis i dderbyn. Ond, os yw'r annedd yn destun tenantiaeth, yna ar ôl y tri mis cyntaf, mae'r parti arall i'r denantiaeth (ee y landlord os mai'r tenant yw'r parti cyntaf) yn rhannu'r hawl i dderbyn gyda'r parti cyntaf. Os nad yw'r cynnig wedi ei dderbyn o fewn chwe mis ar ôl cynnig ffurfiol, gellir ei dderbyn yn ystod y 12 mis wedi i'r ffordd agor i drafnidiaeth gyhoeddus (os yw'r cyfnod hwnnw'n ddiweddarach). Os nad yw'r cynnig wedi ei dderbyn gan y parti cyntaf o fewn y cyfnod cychwynnol o dri mis (pryd mai ef yn unig sydd â'r hawl i dderbyn) ac os caiff ei dderbyn wedyn gan y landlord, dyweder, (y parti arall i'r denantiaeth) yna ni fydd gan y parti cyntaf hawl i dderbyn mwyach.

**12.** Dylid derbyn y cynnig ar y ffurflen a ddarperir. Gellir derbyn:

- y cynnig i wneud y gwaith inswleiddio mewn unrhyw un, rhai neu'r cyfan o'r ystafelloedd a restrir; neu
- cynnig grant am un, rhai neu'r cyfan o'r ystafelloedd a restrir; neu
- gynnig i wneud y gwaith mewn rhai ystafelloedd a chynnig grant mewn perthynas ag eraill.

13. Gall tenant neu drwyddedai sy'n addasu adeilad heb ganiatâd y landlord neu'r trwyddedwr fod yn torri ei gytundeb neu ei drwydded tenantiaeth. Os bydd naill ai landlord neu denant yn atal ei ganiatâd, gall y parti arall i'r denantiaeth dderbyn y cynnig ac mae gan yr awdurdod bwerau i wneud y gwaith er bod angen caniatâd un parti i'r denantiaeth a bod hwnnw wedi ei atal. Er hynny, nid yw'r pŵer hwn yn rhoi hawl mynediad i'r awdurdod i wneud gwaith inswleiddio; yn hytrach, mae'n golygu y gellir gwneud gwaith yn gyfreithiol er gwaethaf atal caniatâd a fyddai fel arall yn ofynnol yn ôl telerau'r denantiaeth.

### ***Sŵn adeiladu***

14. Mae'r rheoliadau'n cynnwys pŵer arbennig sy'n galluogi'r awdurdod priffyrdd i ddarparu inswleiddiad ar gyfer anheddau y mae sŵn yn effeithio arnynt yn ystod y cyfnod adeiladu. Hyd yn oed os na ddisgwylir i'r annedd fod yn gymwys pan fydd y ffordd yn dechrau cael ei defnyddio, gellir ei inswleiddio ar y sail bod yr awdurdod yn ystyried y caiff mwynhad yr eiddo ei effeithio'n ddifrifol am gyfnod sylweddol gan sŵn o'r gwaith adeiladu.

15. Mae'r eiddo a'r ystafelloedd sy'n gymwys yr un fath â'r rhai a grybwyllir ym mharagraffau 4 i 8, ond bod trefn cynnig a derbyn inswleiddiad yn wahanol. I ddechrau, nid oes yn rhaid cyflwyno map na rhestr; y cyfan sy'n digwydd yw bod yr awdurdod yn cynnig inswleiddiad i'r deiliad (neu'r landlord). Yn ail, rhaid fel arfer i'r cynnig gael ei dderbyn (gan y deiliad neu'r landlord) o fewn dau fis ar ôl iddo gael ei gynnig. Gellir derbyn y gwaith neu'r grant ac mae paragraffau 16 i 19 isod yn gymwys.

### ***Trefniadau i wneud y gwaith a'i arolygu***

16. Os yw'r awdurdod yn trefnu gwneud y gwaith, bydd ei gontractiwr neu ei weithiwr yn cysylltu â phwy bynnag a dderbyniodd y cynnig i drefnu amser i ddechrau'r gwaith.



17. Bydd yr awdurdod yn dymuno'i fodloni ei hun bod y gwaith inswleiddio'n cydymffurfio â'r manylebau. Bydd swyddog o'r awdurdod yn gofyn i bwy bynnag a dderbyniodd y cynnig i drefnu bod modd cael mynediad rhesymol er mwyn arolygu'r gwaith. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os ydych am drafod unrhyw bwyntiau ynghylch y gwaith, dylech gysylltu â'r awdurdod yn y cyfeiriad a ddangosir ar y cynnig ffurfiol.

### ***Y weithdrefn ar gyfer gwneud cais am grant***

18. Os ydych yn dymuno gwneud trefniadau preifat i gael gwaith inswleiddio wedi'i wneud a chael grant am y gost, mae rhai pwyntiau pwysig i'w cofio:

- Y grant a ganiateir yw cost wirioneddol y gwaith wedi cymryd gwerth llawn yr holl ysgogiadau a disgowntiau ac ati a ddarperir gan adeiladwyr, contractwyr neu gyflenwyr, i ystyriaeth neu'r gost resymol, p'un bynnag sydd leiaf. Gallwch ofyn i'r awdurdod am y ffigurau cyfredol am y gost resymol os nad yw eisoes wedi dweud wrthyhch. (Cynghorir chi'n gryf i wneud hynny cyn cytuno i'ch contractiwr eich hun wneud y gwaith.) Mae'r terfynau costau hyn yn cael eu cysylltu ag arwynebedd y ffenestri a'r drysau eilaidd sydd i'w darparu, gan gynnwys cost yr holl waith cysylltiedig megis leinio dadlenni (hy y gofod rhwng y ffenestri mewanol ac allanol) ac adnewyddu'r gwaith addurno presennol; nifer yr ystafelloedd sydd i gael systemau awyru ac awyrellau parhaol gan gynnwys eu gosod ac ati; arwynebedd y llenni dellt lle bo'n briodol. Os ydych yn amau a yw'r pris a roddodd eich contractiwr o fewn y terfyn a gawsoch gan yr awdurdod ai peidio, dylech holi'r contractiwr. Os byddwch yn penderfynu derbyn amcangyfrif sy'n fwy na'r terfyn neu cyn i chi wybod beth yw'r terfyn, rhaid i chi sylweddoli y gall fod yn rhaid i chi dalu'r gweddill eich hun.

- Rhaid i chi nodi'ch bwriad ar y ffurflen dderbyn ac ar yr un pryd rhaid cyflwyno amcangyfrifon yn dangos pob eitem yn unigol:
  - a. dimensiynau pob ffenestr a drws allanol sy'n gymwys i gael triniaeth ym mhob ystafell mewn metrau i ddau le degol;
  - b. nifer yr ystafelloedd sydd i gael systemau awyru ac awyrellau parhaol (gan gynnwys pibellau cyflenwi a chwflau neu griliau). Dylai'r system awyru a'r awyrellau parhaol fod ar y rhestrau cymeradwy a grybwyllir ym mharagraffau 22 a 23, tudalen 10; os oes offer hylosgi â fflw yn yr ystafell dylid rhoi eu graddfa allbwn mewn cilowatiau;
  - c. cyfanswm arwynebedd llenni dellt mewn metrau sgwâr i dri lle degol (y cyfanswm arwynebedd yw cyfanswm arwynebedd y ffenestri sy'n gymwys i gael y driniaeth hon);
  - d. amcangyfrif o gyfanswm y gost;
  - e. enw a chyfeiriad unrhyw gontractiwr.
- Bydd yr awdurdod yn cydnabod bod eich cais wedi dod i law ac yn cadarnhau swm y grant sy'n daladwy. Ni chewch grant mewn perthynas â chost inswleiddio ffenestri a drysau allanol heb eu nodi yn y cynnig fel rhai sy'n gymwys i'w trin.
- Rhaid i'r gwaith gosod gydymffurfio â'r manylebau a nodir yn Atodlen 1 i Reoliadau Inswleiddio rhag Sŵn 1975 ac fe'ch cynghorir i wneud hyn yn glir yn y trefniadau a wnewch gydag unrhyw gontractiwr.
- Rhaid i unrhyw gontractiwr a gyflogwch fod wedi cwblhau'r gwaith yn ôl y manylebau perthnasol cyn pen 12 mis ar ôl y dyddiad pryd y derbyniwch gynnig grant yr awdurdod.

- Chi fydd yn gyfrifol am wneud unrhyw drefniadau preifat y penderfynwch eu gwneud a bydd yr awdurdod yn ad-dalu hyd at y terfyn costau a ganiateir i chi, neu'n talu'ch contractiwr lle mae trefniadau wedi eu gwneud i dalu'n uniongyrchol i'r contractiwr, a hynny ar ôl iddo archwilio'r gwaith a'i fodloni'i hun ei fod yn cydymffurfio â'r manylebau.
- Os gwnewch y gwaith eich hun, ni allwch hawlio grant tuag at gostau'ch llafur eich hun.
- Ar ôl cwblhau'r gwaith, rhaid cyflwyno manylion ategol gyda cheisiadau am daliadau grant.

# Manylebau gwaith inswleiddio

19. Mae'r manylebau'n cynnig pecyn safonol o:

- ffenestri eilaidd a drysau dwbl (neu ddrws sengl gyda gwell nodweddion inswleiddio rhag sŵn);
- awyru ategol;
- llenni dellt mewn ffenestri sy'n wynebu cyfeiriadau neilltuol.

## *Ffenestri eilaidd*

20. Beth bynnag yw trwch y gwydr mewnol, po fwyaf yw'r gofod rhwng y gwydrau, mwya'n y byd fydd y gostyngiad mewn sŵn. Er hynny, mewn rhai achosion gall fod yn rhy ddrud i ddarparu gofod mawr oherwydd cynllun y ffenestr. Felly mae'r fanyleb yn hyblyg; mae'n caniatáu amrywiaeth yn y gofod ac yn darparu ar gyfer gwydr (mewnol) mwy trwchus gyda llai o ofod.

*Gofod aer*

*Trwch y gwydr mewnol*

200mm (neu fwy)

3mm (o leiaf) ond llai na 4mm

150mm ond llai na 200mm

4mm ond llai na 6mm

100mm (o leiaf) ond llai na 150mm

6mm neu fwy

Dylid dewis y cyfuniad mwyaf addas gan ystyried cynllun y ffenestr, y gostyngiad mewn sŵn a'r gost.

## *Drysau dwbl*

21. O ddewis, dylai drysau dwbl allanol fod ar ffurf lobi wedi ei adeiladu trwy osod drws mewnol bellter y tu ôl i ddrws allanol sydd eisoes yno. Lle nad yw hyn yn ymarferol mae modd rhoi gwell nodweddion inswleiddio yn y drws sengl.

## **Awyru**

**22.** Fel rheol mae'n ofynnol yn ôl y rheoliadau i bob ystafell a inswleiddir rhag sŵn gael uned awyru (ffan mewnbwn) sy'n rhoi perfformiad penodedig. Rhaid i'r uned hefyd gael ffilter. Bydd gan yr awdurdod restr o'r unedau gyda'u pibellau cyflenwi aer cysylltiedig a chwflau neu griliau sy'n bodloni manylebau y Bwrdd Cytundeb. Os ydych yn bwriadu gwneud trefniadau preifat, dylech gael copi ganddynt o'u rhestr (a fydd hefyd yn cynnwys unedau sy'n cyfuno'r awyrydd mecanyddol gyda'r awyrell barhaol y cyfeirir ati ym mharagraff 23 isod). Dim ond gwaith inswleiddio sy'n defnyddio systemau awyru ardystiedig y dylid ei osod.

**23.** Yn ychwanegol at yr unedau awyru, rhaid i bob ystafell sydd wedi'i hinswleiddio gael awyrell barhaol y gall aer ddod i mewn ac allan o'r ystafell yn rhydd drwyddi ond sydd ar yr un pryd yn cyfyngu ar sŵn. Mae maint a pherfformiad awyrell barhaol yn dibynnu ar unrhyw offer hylosgi â fflw all fod yn yr ystafell; os ydych yn bwriadu gwneud trefniadau preifat dylech ddarllen Atodlen 1 i Reoliadau Insweiddio rhag Sŵn 1975. Bydd gan yr awdurdod hefyd restr o'r awyrellau parhaol a ardystiwyd fel rhai sy'n bodloni'r manylebau. Awyrellau ardystiedig yn unig y dylid eu gosod. Lle nad oes offer hylosgi, neu lle nad oes ond offer wedi'i selio, mewn ystafell, gall yr uned awyru ar awyrell barhaol fod yn rhai a all gau, a hynny i osgoi'r posibilrwydd o ddrafftiau pan fydd yn wyntog.

## **Llenni dellt**

**24.** Er y bydd yr awyru ategol yn ddigonol ar gyfer amgylchiadau byw arferol, pan fydd yr haul yn tywynnu ar ffenestri sy'n wynebu'r gogledd-ddwyrain drwy'r de i'r gogledd-orllewin, gall fod yn anghyffyrddus oherwydd tymheredd uchel yn yr ystafell. Fe ddylid felly gosod llenni dellt rhwng cwareli ffenestri sydd â gwydro eilaidd sy'n wynebu'r cyfeiriadau hyn. Mae Atodlen 1 i Reoliadau Insweiddio rhag Sŵn 1975 yn rhoi'r fanyleb ar gyfer y llenni dellt hyn ac am y peirianwaith sy'n eu rheoli. Gallwch wrthod cynnig o lenni dellt os oes gennych ffordd resymol arall o reoli gwres yr haul.

## ***Cyffredinol***

25. Mae anheddau nad ydynt o adeiladwaith briciau safonol (er enghraifft Tai Dur BISF neu dai ysgafn eraill sydd wedi'u cynhyrchu ymlaen llaw) yn gymwys i gael y gwaith inswleiddio a bennwyd. Ond mae anawsterau technegol ynghylch inswleiddio adeiladau fel hyn. Gall fod yn amhosibl cael yr un raddfa o ostyngiad mewn sŵn a gall yr inswleiddio gostio mwy. Os ydych yn berchen ar annedd fel hyn, neu'n byw mewn un, ond yn dymuno gwneud y gwaith trwy drefniant preifat, byddai'n ddoeth i chi gysylltu â'r awdurdod a gofyn am gyngor. Yn yr un modd, nid yw ystafelloedd unigol (megis ystafelloedd a adeiladwyd yn y to) sydd heb waliau briciau safonol neu'r tebyg yn addas fel arfer ar gyfer y math o inswleiddio a bennir yn y rheoliadau a gall y canlyniadau fod yn llai boddhaol na chyda wal friciau safonol oni bai fod yr unigolyn yn gwneud gwaith ychwanegol ac o bosibl, drud. Ni fydd yr awdurdod yn inswleiddio'r ffenestri priodol ond i'r manylebau; ni fydd yn gwneud gwaith ychwanegol megis inswleiddio strwythur y to nac yn talu grant tuag at waith ychwanegol o'r fath.

## ***Diffygion yn yr adeilad***

26. Nid yw'n ofynnol i'r awdurdod wneud gwaith, na rhoi grant tuag at waith a all fod yn angenrheidiol i wella diffyg mewn adeilad cyn gosod yr inswleiddio. Er enghraifft, os yw silffoedd ffenestr sydd wedi pydru yn atal gosod gwydro eilaidd, gall yr awdurdod ddisgwyl i'r gwendid gael ei gywiro cyn darparu'r inswleiddio y maent wedi ei gynnig.

## ***Cynnal a chadw***

27. Ni fydd yr awdurdod yn cynnal a chadw nac yn atgyweirio unrhyw offer megis gwydro neu ddrysau eilaidd, llenni dellt neu systemau awyru y mae wedi eu gosod o dan y rheoliadau.

## ***Gwaith sydd eisoes wedi'i osod***

28. Os ydych eisoes wedi gosod inswleiddiad sy'n bodloni gofynion y rheoliadau cyn i'r cynnig ffurfiol gael ei wneud, dim ond cynnig o grant am y gwaith hwnnw fydd ar gael. Lle nad yw'r inswleiddiad yr ydych eisoes wedi'i osod yn cyd-fynd â'r safon, neu lle mae heb ei orffen, bydd y cynnig grant am y gwaith yr ydych wedi'i osod yn parhau i fod ar gael ar yr amod y caiff unrhyw waith angenrheidiol i gyrraedd y safon ei wneud. Gall y gwaith adfer gael ei wneud naill ai gan yr awdurdod neu gan eich contractiwr eich hun, ac os felly bydd grant pellach ar gael yn ychwanegol at y grant am y gwaith yr ydych eisoes wedi'i osod. I gael unrhyw daliad mewn perthynas ag inswleiddiad sydd eisoes wedi'i osod, bydd angen i chi ddarparu manylion y gwaith fesul eitem yn unol â pharagraff 18. Os cewch unrhyw anawsterau dylech ysgrifennu at yr awdurdod.

## ***Y weithdrefn apelau***

29. Ar ôl i chwe mis ddod i ben ar ôl y dyddiad pryd yr agorwyd y ffordd neu'r lôn gerbydau newydd i draffig cyhoeddus am y tro cyntaf, os ydych heb gael cynnig inswleiddiad ond yn teimlo bod gennych hawl i gael cynnig o'r fath, gallwch ysgrifennu at yr awdurdod priffyrdd gan nodi'r ffeithiau a gofyn iddo gynnig inswleiddiad neu grant i chi. Rhaid i chi wneud eich cais cyn i'r 12 mis ar ôl y dyddiad pan agorwyd y ffordd am y tro cyntaf i draffig cyhoeddus ddirwyn i ben. Neu gallwch apelio o fewn y cyfnod o chwe mis yn dechrau pan gaiff y map neu'r rhestr y cyfeirir ato ym mharagraff 9, eu rhoi ar adnau i'w harchwilio gan y cyhoedd. (Bydd yr awdurdod priffyrdd yn cyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol yn nodi'r terfynau amser ar gyfer apelau ynghylch cynllun neilltuol.)

30. Ar ôl i'ch cais ddod i law mae'n ofynnol i'r awdurdod adolygu'r cyfrifiadau sŵn y maent wedi'u gwneud. Os yw'n darganfod wedyn bod gennych hawl mewn gwirionedd, bydd yn gwneud cynnig. Fel arall bydd yn gwrthod y cais a rhaid iddo roi datganiad ysgrifenedig i chi yn egluro'i resymau dros wneud hynny.



# Defnyddio'r gwaith inswleiddio

## *Awryddion*

31. I fod yn effeithiol, mae inswleiddio rhag swân yn ei gwneud yn ofynnol i'r ffenestri fod ar gau a bydd hyn yn cyfyngu awyru naturiol. Mae angen awyr iach mewn adeiladau i leihau arogleuon a pheryglon nwyon tocsig, i helpu i atal cyddwysiad ac, ar ddyddiau heulog, i arbed anghysur yn sgil gormod o wres. Er y gellir agor gwydro eilaidd - ac mae'n rhaid ei lanhau fel arfer - mae ei agor yn gadael swân i mewn ac felly mae dull ategol o awyru'n fecanyddol yn angenrheidiol fel arfer.

32. Yn ychwanegol, mae rhan o'r fanyleb yn darparu ar gyfer isafswm arwynebedd o agoriadau parhaol mewn wal allanol yn yr ystafell, yn dibynnu ar gyfanswm allbwn yr offer hylosgi â ffliw (tanwydd solid, nwy neu olew) sydd yn yr ystafell. Bydd yr isafswm arwynebedd o agoriadau parhaol a bennir yn bodloni'r gofynion statudol lleiaf pan gaiff yr awrydd mecanyddol ei ddiffodd; er mwyn i ddigon o aer ddod i mewn trwy'r agoriadau swân-ataliol er mwyn gallu cynnau'r offer sydd â ffliw yn ddiogel.

33. *Er hynny, mae'n bwysig defnyddio'r awyru mecanyddol ategol ym mhob ystafell i ategu'r awyr iach yn yr un modd ag y byddai ffenestr fel rheol yn cael ei hagor i gynyddu'r awyru. Dylech osgoi atal y llif aer trwy'r system awyru neu'r awyrell barhaol, gan y byddai hynny'n torri'r aer y mae ei angen ar gyfer offer hylosgi â ffliw. ( Ni chaniateir awryddion ac awyrellau y gellir eu cau ond lle nad oes offer hylosgi neu lle nad oes ond offer wedi'i selio yn yr ystafell).*

34. Fel yr eglurwyd ym mharagraff 7, mewn ystafell sy'n cynnwys offer hylosgi heb ffliw (megis gwresogydd olew a phopty neu ffwrn nwy), rhaid i'r deiliad ganiatáu cyflenwad digonol o awyr iach pan fo offer o'r fath yn gweithio, naill ai

trwy weithredu'r uned awyru (po fwyaf fydd cyfradd yr offer hylosgi, mwyaf yn y byd fydd y llif aer a osodir) neu drwy agor y ffenestr sydd heb ei hinswleiddio.

## Cofiwch

- **Peidiwch â dod ag offer hylosgi heb ffliw megis tân olew neu nwy cludadwy i ystafell sydd wedi ei hinswleiddio'n llawn.**
- **Peidiwch â dod ag offer hylosgi heb ffliw megis tân olew neu nwy cludadwy i ystafell sydd wedi ei hinswleiddio'n llawn.**
- **Os byddwch yn newid yr offer hylosgi mewn ystafell sydd wedi ei hinswleiddio'n llawn, dylech wneud yn siŵr y gall yr offer weithio'n ddiogel.**
- **Cadwch yr uned awyru a'r awyrell barhaol yn glir a pheidiwch ag atal y llif aer mewn unrhyw ffordd (ac eithrio lle y caniateir awyryddion ac awyrellau y gellir eu cau).**
- **Mae gan yr uned awyru ffilter - glanhewch hwnnw yn rheolaidd.**

## *Llenni haul*

35. Ni fydd llenni haul yn atal ystafelloedd rhag poethi gormod ond os cânt eu gostwng cyn i'r haul dywynnu ar y ffenestri. Gall hyn olygu bod yn rhaid gostwng y llenni cyn gadael tŷ yn wag am y dydd. I fod yn gyfan gwbl effeithiol, dylid troi'r dellt hyd nes eu bod o leiaf hanner ffordd ar gau (45°). Mae'r goleddf cywir yn rhoi golygfa tuag at y llawr, nid golygfa tua'r awyr. Bydd dulliau eraill o reoli gwres yr haul at ei gilydd yn llai boddhaol.

# Nodiadau ar gymhwyster

## *Ffyrdd newydd a ffyrdd a newidir*

1. Lle caiff ffordd newydd ei hagor am y tro cyntaf i draffig cyhoeddus, neu lle caiff lôn gerbydau sydd wedi'i hychwanegu at ffordd sydd yn bodoli eisoes ei hagor, mae'n ofynnol i'r awdurdod priffyrdd sy'n gyfrifol am y ffordd honno gynnig inswleiddiad i ddeiliaid eiddo sy'n gymwys os yw'r lefel sŵn ar wyneb yr eiddo yn codi hyd at y lefel benodedig, neu'n uwch na hi.

2. Yn ychwanegol, mae gan yr awdurdod priffyrdd bŵer dewisol i ddarparu inswleiddiad ar gyfer adeiladau sy'n gymwys mewn amgylchiadau penodol rhag sŵn:

- sydd ar y lefel benodedig neu'n uwch na hi ac yn cael ei achosi gan draffig yn defnyddio ffyrdd y mae eu lleoliad, eu lled neu eu lefel wedi eu newid, heblaw trwy osod wyneb newydd;
- sydd, neu a fydd, yn cael ei achosi gan waith adeiladu priffordd newydd, neu lôn gerbydau ychwanegol neu newid i briffordd sydd, neu a fydd ym marn yr awdurdod yn effeithio'n ddifrifol ar annedd yn agos at y safle gwaith am gyfnod sylweddol o amser.

Mater i'r awdurdod priffyrdd benderfynu arno yw'r defnydd o bwerau dewisol, gan gynnwys cynnydd yn y sŵn neu'r lefelau sŵn sy'n ofynnol i fod yn gymwys ar gyfer cynnig inswleiddiad.

## *Y lefel benodedig*

3. Bydd annedd o fewn 300 metr i waith ffordd o'r fath yn gymwys os cyfrifir (yn y dull a ddarperir gan y rheoliadau), o fewn 15 mlynedd ar ôl agor y ffordd newydd neu'r ffordd a newidir:

- y bydd lefel sŵn y traffig ar un neu ragor o wynebau yn cynyddu o 1dB(A) o leiaf ac na fydd yn llai na'r lefel benodedig o 68dB(A)L10(18 awr)\*; ac
- y bydd y sŵn a achosir neu y disgwylir iddo gael ei achosi gan y traffig yn defnyddio'r rhan newydd neu'r rhan a newidir o'r ffordd yn cyfrannu 1dB(A) o leiaf at lefel y sŵn.

Mae gan yr awdurdod ddisgresiwn i inswleiddio anheddau cyfagos nad ydynt yn gymwys er mwyn parhau inswleiddiad ar hyd rhes o dai neu floc o fflatiau, os yw'n briodol.

\*L10 yw'r lefel sŵn mewn dB(A) yr eir y tu hwnt iddi am 10% o gyfnod penodedig o amser. Yn y rheoliadau, L10 (18 awr) yw cyfartaledd rhifyddol pob gwerth L10 am bob awr yn ystod y cyfnod rhwng chwech o'r gloch y bore a hanner nos ar ddiwrnod gwaith arferol.